**Panel Defnyddwyr Ystadegau'r Trydydd Sector ar gyfer Cymru**
**Diweddariadau Ystadegol Ebrill 2018**

## Yr Amgylchedd a Thai

**Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 (WHCS)**

Dechreuodd y gwaith maes ar 1 Awst ac ar ôl 7 mis llwyddiannus mae'r nod o 2,500 o archwiliadau eiddo'n debygol o gael ei gyflawni erbyn diwedd mis Ebrill. Bydd y canlyniadau cyntaf ar gael yn ystod tymor yr hydref 2018, gydag amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u diweddaru erbyn diwedd 2018. Anfonwyd holiadur byr at y rhanddeiliaid a'r defnyddwyr i roi gwybod sut orau i ddosbarthu'r data. Bydd hwn yn cael ei ddadansoddi ochr yn ochr â thrafodaethau gyda chydweithwyr polisi. Bydd crynodeb o'r gwaith hwn a'n cynlluniau ar gyfer dosbarthu'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn ystod y misoedd sydd i ddod.

**Adnodd Dadansoddol y Stoc Tai ar gyfer Cymru (HSAR)**

Gwnaed gwaith ymgysylltu â defnyddwyr helaeth tua diwedd 2017, a'r canlyniad oedd dealltwriaeth o'r newydd o anghenion defnyddwyr a phennu amcanion clir ar gyfer HSAR. Bydd y ffocws yn hanner cyntaf 2018 ar greu cynnyrch profi cysyniad sy'n cysylltu'r setiau data sydd wedi dod i law hyd yma, gan ddatblygu porthol StatsCymru er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr allanol gael mynediad at yr Adnodd, a chael gwared ar rai agweddau technegol ar gysylltu a storio data. Bydd adroddiad cynnydd HSAR yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn a bydd cais yn cael ei wneud i Bwyllgor Moeseg Data'r Ystadegydd Gwladol am gymeradwyaeth foesegol i HSAR.

## Arolwg Cenedlaethol

**Canlyniadau a dadansoddiad 2016-17**

Ar 28 Mehefin 2017, cyhoeddwyd datganiad cyntaf arolwg 2016-17, ynghyd â thablau a siartiau yn ein dangosydd canlyniadau excel. Wedyn cafwyd cyfres o allbynnau ar bynciau penodol:

- Iechyd y boblogaeth
- Y rhwystrau mae pobl anabl yn eu hwynebu mewn cymdeithas
- Y celfyddydau, treftadaeth, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd
- Lles meddyliol
- Hamdden awyr agored
- Gofal plant - Ffordd o fyw
- Salwch
- Mynediad i'r rhyngrwyd a gwasanaethau cyhoeddus ar-lein
- Chwaraeon
- Agweddau at risg o lifogydd
- Ardaloedd a chymunedau lleol
- Safbwyntiau am newid yn yr hinsawdd
- Gwirfoddoli a gofalu
- Gofal plant
- Teithio llesol
- Safbwyntiau am Fioamrywiaeth
- Pobl sydd eisiau gofal a chefnogaeth
- Unigrwydd
- Gwasanaethau ambiwlans
- Gwasanaethau Meddygon Teulu

Yng ngwanwyn 2018, byddwn hefyd yn cyhoeddi bwletin ar wasanaethau Ysbytai, Tlodi ac Addysg. Mae'r holl fwletinau sydd wedi'u cynllunio a'u cyhoeddi i'w gweld ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol

**Arolwg Cenedlaethol – 2017-18:** Y gwaith maes wedi'i gwblhau; cyhoeddir y canlyniadau cyntaf tua diwedd mis Mehefin 2018.

**Arolwg Cenedlaethol – 2018-19:** Mae'r gwaith maes wedi dechrau ac mae'r pynciau sydd wedi'u cynnwys ar gael ar ein gwefan ni.

**Arolwg Cenedlaethol – 2019-20:** Rydym wedi dechrau datblygu holiadur 2019-20. Gellir gweld y cwestiynau sydd eisoes wedi'u cytuno eu cynnwys ar ein chwiliwr cwestiynau.

Mae mwy o wybodaeth am yr arolwg ar gael ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol neu drwy gysylltu ar arolygon@llyw.cymru


**Manylion Cyswllt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru**

**Ebost:** Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau **Ffôn:** 0300 060 4400
**Yn benodol i'r pwnc:** http://llyw.cymru/statistics-and-research/about/contacts-statistics/lang=cy
**Twitter:** https://twitter.com/ystadegaucymru
**Gwasanaeth newyddion a rhybuddion e-bost Llywodraeth Cymru:** http://llyw.cymru/news-alerts/?lang=cy
**Ymholiadau Gweinyddol:** E-bost GweinydduGGD@llyw.cymru